

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL
A GYNHALIWDYD AR 6 CHWEFROR 2024 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Peter Hughes Griffiths fu'n cadeirio'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Peter Hughes Griffiths, Angharad Jones Leefe (fideo), Alun Lenny (fideo), Miriam Moules (fideo), Wyn Thomas a Barry Williams (fideo).

Emma Smith – Clerc i'r Cyngor Tref
 Tudur Jones – Cyfieithydd

323. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Arwel Lloyd, Emlyn Schiavone a Russell Sparks.

324. Datgan buddiannau.

Adroddiad Clerc y Dref

325. Ceisiadau Cynllunio

ff. PL/07136 - Blaen siop newydd gydag arwydd newydd uwchben - 132B Heol y Prior, Caerfyrddin, SA31 1LR - Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r cais a'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Treftadaeth Adeiledig. **PENDERFYNWYD** peidio â gwneud unrhyw sylw ar hyn o bryd tra bod yr adran gynllunio yn datrys y materion a nodwyd.

ii. PL/07046 - Gosod Pwmp Gwres o'r Awyr - 9 Friars Park, Caerfyrddin, SA31 3AN - **DIM GWRTHWYNEBIAD**

iii. PL/07194 - Cynllunio ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd a gwaith mewnol i drosi llawr cyntaf ac ail lawr 19-20 Heol Awst yn 4 fflat preswyl hunangynhwysol - 19-20 Heol Awst, Caerfyrddin, SA31 3AL. **CEFNOGWYD** y cais gan yr Aelodau i ddod â mwy o lety preswyl i ganol y dref ond gofynnwyd am ystyriaeth o'r potensial am lygredd sŵn o dafarndai a chlybiau nos cyfagos fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

iv. PL/07018 - Caniatâd Materion a Gadwyd yn ôl ar gyfer cam 1 caniatâd amlinellol W/27776 a PL/01626 ar gyfer cymeradwyo 123 o anheddau preswyl, seilwaith cysylltiedig a darpariaeth POS - Tir i'r gogledd o Hen Heol Sanclêr (B4312), i'r de o Bentremeurig Heol a gorllewin Caerfyrddin a adwaenir fel De Fferm Pentremeurig - Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r cais gan nodi **DIM GWRTHWYNEBIAD** i'r cam hwn o'r datblygiad. Holodd yr aelodau ynghylch y diffyg gwasanaethau ychwanegol a ddarperir ar gyfer yr holl dai ychwanegol yn y safle datblygu hwn sydd yn ehangu. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth gofal iechyd ychwanegol i ddarparu ar gyfer yr holl eiddo newydd. Holodd y pwyllgor pryd y byddai gwaith yn dechrau ar yr ysgol newydd a

gymeradwywyd ar gyfer yr ardal hon. Codwyd y ddarpariaeth ar gyfer mwynderau megis siopau mewn datblygiad sy'n cyfateb i bentref neu dref fechan o ran maint.

326. Materion Priffyrdd

Dim

327. Materion Trwyddedu

Dim

328. Ystyried y rheol ynghylch â lliwiau cerrig beddi yn y Fynwent

Hysbyswyd yr aelodau bod catalog o'r holl opsiynau lliw wedi'i ddarparu a bydd y Swyddog Gweinyddol yn gwirio lliwiau pan fydd seiri maen yn cysylltu i sicrhau bod yr arlliwiau o fewn ystod dderbyniol o lwyd (neu ddu), yn hytrach na lliwiau megis llwydwyn, lliw carreg neu hufen. **ARGYMHELLWYD** y ffordd hon ymlaen at y cyngor.

329. Adolygiad o gau giât ym Mharc Penllwyn

Adolygodd yr aelodau gau'r maes chwarae ym Mharc Penllwyn fel y cytunwyd ym mis Medi 2021. Oherwydd gostyngiad mewn baw cŵn ar y cae a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig ag agor a chau'r giât, **ARGYMHELLWYD** y pwyllgor fod y trefniant presennol o adael y gatiau ar gau yn parhau.

330. Adolygiad o Ddosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio 2023 – Cyngor Sir Caerfyrddin

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adolygiad a **NODODD** y ddogfen gan dderbyn yr un newid arfaethedig yn ward Gogledd/De.

331. SPF - Diweddariadau Cronfeydd Cymunedau Cynaliadwy

NODODD yr Aelodau y diweddariad ar y bandstand a phrosiect ynni cymunedol a oedd wedi derbyn cyllid SPF.

329. Dathliadau Dydd Gwyl Dewi

332. Dathliadau Gwyl Ddewi

Diolchodd yr aelodau i'r Cyngor a'r staff am y trefniadau a **NODWYD** y cynlluniau ar gyfer y digwyddiadau yn ystod Chwefror a Mawrth.

333. Polisi Asesu Risg

Cynigiodd y Cyng. Angharad Jones Leefe newid geiriad i linellau 12 a 13 i adlewyrchu'r ffactorau allanol a oedd yn effeithio ar y meysydd hyn, sydd tu allan i reolaeth y cyngor. Gyda'r gwelliant arfaethedig a nodwyd, **ARGYMHELLWYD** yr asesiad risg a'r amserlen i'r cyngor.

334. Adroddiad y Swyddog Gweithrediadau

NODODD yr Aelodau yr adroddiad. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y lle chwarae ym Mharc Penllwyn. Bydd y Clerc yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod llawn y cyngor ar ddiwedd mis Chwefror.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:13yh